OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1565

# Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011

## RHAN 8

AMRYWIOL

**Pwyllgor Cynghori**

**58.**—(1) Rhaid i'r Comisiynwyr sefydlu pwyllgor a elwir yn Bwyllgor Cynghori Harbwr Saundersfoot, a rhaid iddynt ymgynghori â'r pwyllgor hwnnw (ac eithrio mewn achosion o frys arbennig) ynghylch pob mater sy'n effeithio'n sylweddol ar reoli, cynnal, gwella, cadwraeth, diogelu neu reoleiddio'r harbwr, a mordwyo o fewn yr harbwr.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, rhaid i'r pwyllgor cynghori gynnwys dim llai na saith aelod a benodir gan y Comisiynwyr, ac o'r rheini—

(a) rhaid penodi un a enwebir gan y Gymdeithas Hwylio Frenhinol;

(b) rhaid penodi un a enwebir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro;

(c) rhaid penodi un yn dilyn ymgynghori â phersonau sydd, ym marn y Comisiynwyr, yn cynrychioli buddiannau pysgota lleol yn yr harbwr;

(ch) rhaid penodi un a enwebir gan Glwb Hwylio Saundersfoot;

(d) rhaid penodi un yn dilyn ymgynghori â phersonau sydd, ym marn y Comisiynwyr, yn cynrychioli buddiannau masnachol yn yr harbwr, ac eithrio cychod a physgota; a

(dd) rhaid penodi o leiaf ddau i gynrychioli'r cyfryw bersonau sydd â diddordeb yn yr harbwr, ac eithrio'r rhai a grybwyllir yn is-baragraffau blaenorol y paragraff hwn, fel y gwêl y Comisiynwyr yn briodol o bryd i'w gilydd.

(3) Os yw'n ymddangos i'r Comisiynwyr, yn achos unrhyw rai o'r penodiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)—

(a) bod y corff sydd i wneud yr enwebiad wedi gwrthod neu wedi methu ag enwebu aelod wedi i'r Comisiynwyr ofyn iddo wneud hynny, neu

(b) bod y corff sydd i wneud unrhyw un o'r enwebiadau wedi peidio â bodoli mewn ffurf adnabyddadwy,

caiff y Comisiynwyr wneud y penodiad dan sylw fel yr ystyriant yn briodol, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau (os oes rhai) y mae'n ymddangos i'r Comisiynwyr eu bod yn cynrychioli'r buddiannau a gynrychiolir, neu a gynrychiolid gynt, gan y corff enwebu a bennir yn yr is-baragraff perthnasol o baragraff (2).

(4) Rhaid i'r Comisiynwyr gymryd i ystyriaeth unrhyw fater, argymhelliad neu sylw a gyfeirir atynt neu a gyflëir wrthynt o bryd i'w gilydd gan y pwyllgor cynghori, pa un a fu'r Comisiynwyr yn ymgynghori â'r pwyllgor ar y mater, yr argymhelliad neu'r sylw a gyfeiriwyd neu a gyflëwyd felly ai peidio.

(5) Caiff y pwyllgor cynghori benderfynu ar ei gworwm a'i weithdrefn ei hunan, a rhaid iddo benodi cadeirydd.

(6) Caiff aelod unigol o'r pwyllgor cynghori, ar ôl hysbysu cadeirydd y pwyllgor mewn ysgrifen, anfon dirprwy yn ei le i unrhyw gyfarfod o'r corff.

(7) Mae aelod o'r pwyllgor cynghori yn dal y swydd honno am gyfnod o dair blynedd o'r dyddiad y'i penodir, ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw mae'n gymwys i'w ailbenodi.

(8) Caiff aelod o'r pwyllgor cynghori ymddiswyddo ar unrhyw adeg, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i brif weithredwr y Comisiynwyr.

(9) Rhaid i'r Comisiynwyr ddarparu llety rhesymol ar gyfer cyfarfodydd o'r pwyllgor cynghori, a thalu pa bynnag dreuliau rhesymol a dynnir gan y pwyllgor cynghori mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau ysgrifenyddol i'r pwyllgor cynghori.

(10) Caiff y Comisiynwyr dalu costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r pwyllgor cynghori.